# CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES AM

## GOLL-FARNIAD A DIENYDDIAD,

Y

## PEDWAR DYN ANNEDWYDD.

PA RAI A DDIENYDDIWYD YN

## NGHAERODOR, (BRISTOL,)

AR DDYDD GWENER, IONAWR, 27ain, 1832,

Am y Terfysg a gyflawnwyd yno, yn Mis Hydref diweddaf, 1831.

GAN IOAN AB DEWI.

1 Gyfeillion mwyn caredig, yn ddiddig dewch yn mla'n,
Nesewch yn awr yn gryno i wrando'm galar-gan;
Gofidiau 'rol gofidiau sy'n llenwi'r byd o'r bron,
Newyddion trist annedwydd, sy'n rhodio'r ddaear hon.

2 Caerodor, O Caerodor, dy enw fydd mewn co',
Gan genedlaethau i ddyfod i'r byd o dro i dro,
Wrth gofio am y terfysg, mae myrdd a'u c'lonau'n friw.
O fewn i ddinas *Bristo*, a lleoedd ereill clyw.

3 Y nawfed dydd-ar-hugain o Hydref d'weddaf bu,
Dros ddeng-mil o derfysgwyr, yn dorf aneirif lu,
Rhuthrasant ar y gorchwyl o danio'r ddinas wiw,
Heb barchu y llywodraeth, nag ofni cyfraith Duw.

4 Pan ydoedd y *Recorder*, sef Weth'rell dyn diras,
Yn dod i mewn i'r ddinas, rhuthrasant arno'n gas,
Ffenestri'r cerbyd dorwyd, dilynwyd trwy bob stryd,
Gan waeddi,—"lawr â Weth'rell, a'r *Tories* oll i gyd."

5 Yr oedd rhyw olwg ryfedd bryd hyn o fewn i'r dre',
'Roedd pawb mewn aeth a dychryn yn ofnus yn y lle,
'Doedd hyn ond megis chwareu at gym'rodd le 'nol llaw,
Pan llosgwyd y tai annedd dros ddeugain yn ddifraw.

6 Tebygaf mod i'n gweled rhyw dyner fam yn brudd,
Yn tywallt deigrau breision i waered dros eu grudd,
Wrth wel'd ei phlant anwylaf yn llosgi yn y tân,
Yn deisyf ar yr Iesu i'w cym'ryd i'r nef lân.

7 Pa galon all ddychymyg, pa dafod draetha'n gudd,
Y gofid blin a'r trallod, a'r dwys fyfyrdod sydd,
Gan blant ar ol rhieni,—rhieni ar ol y plant,
Yn wylo ac och'neidio mi wn fod llawer cant.

8 Torasant i'r Gwîn-gelloedd, y *Wine-Vaults* yn gytun,
A deuddeg can' pottelaid yfasant hwy o'r gwîn;
Yr hwn a'u gwnaeth yn gryfion a hyfion at y gwaith,
O losgi y Maenor-dy, a'r Toll-dai ar eu taith.

9 Mae drwg effeithiau Medd'dod i'w wel'd yn mhob rhyw oes,
Fe syrthiodd Lot ei hunan i'r pechod oedd yn groes
I natur ac i'r gyfraith, drwy feddwi'n chwerw iawn,
Nes ydoedd ef yn griddfan, mewn galar foreu a nawn.

10 Effeithiau'r pechod yma sy i'w wel'd yn ddigon clir,
O fewn i ddinas *Bristo*, mae'r geiriau'n eithaf gwir,

X205 231712 2

Oa' buasai'r pechod yma, ni fuasai'r pedwar hyn,
Yn cael eu dienyddio mewn modd truenus syn.

11 Yn mhlith y rhai garcharwyd, 'roedd Thomas Gregory,
A Chlarke, a Kayes, a Davis, a Richard Vines wyr cu,
Pan oeddynt yn y carchar, mewn celloedd tywyll iawn,
'Roedd pawb o'r rhai'n yn gwaeddi, 'Dieuog,' foreu a nawn.

12 Pan ddaeth yr awr i'w profi o flaen y *Judges* doeth,
'Roedd tristwch idd ei ganfod ar hyd y wyneb noeth,
Y tystion 'nawr a holwyd, yn EUOG profwyd hwynt,
Ac yna fe'u cynghorwyd i wneyd yn iawn eu pwynt.

13 Gan eu gorchymyn beunydd i geisio ffafr Duw,
A gofyn am faddeuant o flaen ei orsedd wiw,
A llefain am drugaredd tra daliai'r lamp i ma's,
Gan gofio gall y penaf ddychwelyd 'nawr trwy ras.

14 Ar hyn yn ol fe'u dygwyd i'r carchar fel o'r bla'n,
Pob gobaith am eu bywyd oedd wedi'i guddio'n lân,
Pwy galon all ddychymyg eu teimlad y pryd hyn,
Wrth feddwl am wynebu y farn a'r frawdle syn.

15 'Roedd Davis wr oedranus, mewn gweddi foreu a hwyr,
Yn ymbil ar yr Arglwydd am gael maddeuant llwyr,
Yr oedd yn ymddibynu ar haeddiant Iesu Grist,
Gan ddweud, "Rho im' dy 'nabod ni byddaf mwyach drist."

16 A Joseph Kayes a waeddai, a'i ddagrau'n llifo'r lle,
Ar ol i'r *Judge* gyhoeddi y ddedryd arno 'fe,
"O Arglwydd bydd drugarog, a maddeu meiau i mi,
Yn fuan rhaid ymddangos o flaen y frawdle fry."

17 'Roedd Thomas Gregory hefyd, a William Clarke pryd hyn,
Yn gwaeddi ar Dduw Jacob, O madddeu'n beiau in',
Maddeuaist fyrdd o feiau, O maddeu'n awr i ni,
Ac yna ni'th foliannwn yn nef y nefoedd fry.

18 Pan yn y carchar tywyll, 'roedd gweinidogion Duw,
Yn gweini iddynt beunydd, er lles yr enaid gwiw,

Hwy weddient yn gyhoeddus, a dirgel ar bob pryd,
Am iddynt gael parodrwydd cyn myn'd i'r bythol fyd.

19 Pan ar y pren dyoddef,—golygfa ddwys yn wir,
Gwel'd pedwar gyda'u gilydd yn myn'd i'r bythol dir,
'Roedd miloedd a'u c'lonau yn friw wrth wel'd y peth,
Yn llefain ar yr Arglwydd eu derbyn yn ddifeth.

20 O siriol iengctyd Cymru, henafgwyr, canol-oed,
Rho'wn heibio bob rhyw bechod sy'n elyn i ni erioed;
A llefwn am gael rhodio yn llwybrau Crist ein Pen,
Fel gallom gael mynediad i deyrnas nefoedd wèn.

21 Dolurus yw i natur i wel'd cyfeillion pur,
Yn marw ar y crogbren, waith tòri deddfau'r tir,
Ond mwy dolurus gweled eneidiau'n myn'd yn llu,
I'r farn heb 'nabod Iesu yn rhan i'r enaid cu.

22 O Ddaw rho nerth in' weithian i 'mwrthod â phob peth,
Fo'n groes i'r wir dystiolaeth, a'th 'wyllys fwyn ddifeth,
I rodio'n ffordd y bywyd, 'nol rheol Brenin nen,
Fel caffom yn y diwedd ein dwyn i'r nef—Amen.

DIWEDD.

*Wm. Rowlands, Argraffydd, Pontypool.*